# Y broses asesu anghenion (manyleb 2.1.1 (c))

## TAG UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru (asesiad di-arholiad)

Ffocws y dasg: esbonio sut gellid **nodi ac asesu** dau o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn sefydlu sut y gall gyflawni ei ganlyniadau personol.


- Mae gan unigolion (plant, oedolion a gofalwyr) hawl i gael asesiad o'u hanghenion (Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n nodi'r **Cod Ymarfer** ar gyfer asesu unigolion).
- Diben asesiad gofal a chymorth yw gweithio gydag unigolyn, gofalwr a'r teulu, ac unigolion perthnasol eraill, er mwyn nodi ei **ganlyniadau personol**, a sut y gall gyflawni'r canlyniadau hynny.

## Sut gallai'r anghenion hyn gael eu nodi a'u hasesu

Gellid cyflawni hyn drwy **ddyletswydd gofal awdurdod lleol**, sy'n anelu at ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau neu adnoddau er mwyn helpu i atal, gohirio neu leihau datblygiad anghenion gofal a chymorth unigolyn.

- Gall un ymarferydd gynnal asesiad ond gall fod angen cyngor arbenigol neu asesiadau ychwanegol arno i bennu cymhwysedd. Mae **ymarferydd arweiniol** penodedig yn cymryd cyfrifoldeb am y cyswllt ag eraill a chydgysylltu nes bod yr asesiad wedi'i gwblhau.
- Dylai unigolion deimlo eu bod yn **bartner cyfartal** yn eu perthynas ag ymarferwyr a chael cynnig cyfathrebu gan ddefnyddio eu dewis iaith.
- Dylai asesiadau, o leiaf, gofnodi'r asesiad yn unol â'r **rhestr wirio asesu a chymhwysedd cenedlaethol**.
- Gall asesiad o anghenion unigolyn gael ei gyfuno ag **asesiad o anghenion ei ofalwr**.

# Y broses asesu anghenion (manyleb 2.1.1 (c))




Mae **gofal person-ganolog** yn blaenoriaethu anghenion yr unigolyn ac nid anghenion y gwasanaeth penodol a ddewiswyd. Mae **gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau** yn rhoi'r unigolyn wrth wraidd y ddarpariaeth drwy nodi'r hyn sy'n bwysig yn ei fywyd, a sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r un pwrpas o sicrhau cymaint â phosibl o annibyniaeth ac ansawdd bywyd i'r person.

**Yn dilyn asesiad o anghenion, mae cynllun gofal a chymorth** yn nodi pa wasanaethau y dylid eu darparu, pryd y cânt eu darparu a pwy fydd yn eu darparu. Mae angen i'r cynllun gael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth unigol yn cael **asesiad ariannol** sy'n seiliedig ar brawf modd yn ôl ei incwm, cynilion a chyfoeth eiddo.